**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Mawrth 2017

Annwyl Mike,

**Parthed: Deiseb P-05-712 Byddai Adran Ewrop o fewn Llywodraeth Cymru yn Sicrhau Llais Clir, Strategol ac Atebol i Gymru yn y Trafodaethau Parhaus**

Diolch am eich llythyr ynghylch rôl Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau sydd ar y gweill ynghylch ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Fel Pwyllgor, rydym wedi bod yn gyfrifol am ymchwilio i'r "goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd" a sicrhau bod "buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael". Er mwyn cyflawni ei gylch gwaith, mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer o sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, a chydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru ar Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau'r UE.[1]

Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi cynnal pedair sesiwn dystiolaeth gyda'r Prif Weinidog neu Ysgrifennydd y Cabinet. Mae rhestr o'r dyddiadau a lincs i drawsgrifiadau'r sesiynau hyn i'w gweld yn Atodiad A.

Yn ystod y sesiynau hyn, cododd aelodau'r Pwyllgor nifer o faterion, gan gynnwys:

[1] Mae'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn dwyn gweinidogion ynghyd o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPDWG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPDWG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddRPL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddRPL
0300 200 6565

- sut y mae Llywodraeth Cymru yn diogelu buddiannau Cymru yn y negodiadau;
- capasiti ac adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau a'r cyfleoedd yn sgil gadael yr UE;
- y dystiolaeth sy'n sail i rai o safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru ar adael yr UE (fel y nodir yn 'Diogelu Dyfodol Cymru');

Hefyd cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar y goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd rhan un o'r adroddiad yn edrych ar rai o'r themâu allweddol sy'n codi i Gymru. Roedd rhan dau yn edrych yn fanwl ar ymateb Llywodraeth Cymru i adael yr UE, gan gynnwys cysylltiadau rhynglywodraethol, llais Cymru yn y negodiadau a rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran gwaith craffu.

Wrth edrych ymlaen, bydd y Pwyllgor yn parhau i ddwyn Gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyfrif, ac yn benodol yn craffu ar ddatblygiad strwythurau Llywodraeth Cymru ynghylch gadael yr UE wrth i'r broses fynd rhagddi.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A

| Dyddiad | Tyst(ion) | Trawsgrifiad |
|---|---|---|
| 12 Medi 2016 | Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC – Prif Weinidog Cymru<br><br>Des Clifford – Llywodraeth Cymru<br>Piers Bisson – Llywodraeth Cymru | Gweld trawsgrifiad fel HTML (177 KB) |
| 7 Tachwedd 2016 | Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru<br><br>Piers Bisson, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Slade, Llywodraeth Cymru | Gweld trawsgrifiad fel HTML (370 KB) |
| 23 Ionawr 2017 | Mark Drakeford AC – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol<br><br>Paul Harrington – Llywodraeth Cymru<br>Des Clifford – Llywodraeth Cymru | Gweld trawsgrifiad fel HTML (136 KB) |
| 6 Chwefror 2017 | Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC – Prif Weinidog Cymru<br><br>Desmond Clifford – Llywodraeth Cymru | Gweld trawsgrifiad fel HTML (169 KB) |